Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Costau Gwersi Cymraeg

5 Gorffennaf 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

> *What is the annual cost of Welsh lessons offered to Senedd staff.*

Gellir gweld ein hymateb isod.

Mae tîm Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd yn darparu cymorth sgiliau Cymraeg gan gynnwys gwersi Cymraeg a sesiynau gloywi sgiliau iaith (*gloywi iaith*) i Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth a staff Comisiwn y Senedd. Nid ydym yn cadw cofnodion ar wahân am gostau'r gwasanaeth i staff Comisiwn y Senedd yn unig.

Costau'r gwasanaeth hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 oedd £196,791.

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF